

Diweddariad Covid-19 - Cynllunio ar gyfer Absenoldeb y Gweithlu ac Ymdrin ag Absenoldeb

Gwybodaeth yn gywir am 12:00pm 27.03.2020

Sut allech chi addasu eich ffordd o weithio os byddwch chi neu aelodau allweddol o'ch tîm yn ynysu?

- Ystyried newid i'r patrymau godro
- Edrych ar opsiynau ar gyfer arferion bwydo a allai leihau faint o weithiau sydd angen cymysgu

Bydd pob sefyllfa'n wahanol, ond dylid anelu bob amser at gynnal iechyd a lles gwartheg fel bod y fuches mewn cyflwr cystal â phosibl pan fydd yr argyfwng wedi dod i ben.

Godro:

- Newid o odro teirgwaith y dydd i ddwywaith y dydd pe byddai prinder staff
 - Os mae staffio'n mynd yn broblem ar gyfer un neu fwy o'r sesiynau godro, gallai newid o odro teirgwaith i ddwywaith fod yn bosibl. Mae dau opsiwn posibl er mwyn cyflawni hyn:

Opsiwn 1:

- Symud i odro ddwywaith gyda bwllch o 12 awr rhwng pob un, bydd hyn yn lleihau'r straen o symud o odro teirgwaith.

Opsiwn 2:

- Os yn bosibl, parhau i odro'r buchod mwyaf cynhyrchiol deirgwaith, mewn grŵp llai, gyda phrosesau effeithiol. Mae'n bosibl cyflawni hyn yn aml gyda llai o bobl.
 - Godro'r buchod llai cynhyrchiol ddwywaith y dydd. Godrwch y rhain gyntaf yn y bore ac yn olaf yn y prynhawn, er mwyn ceisio ymestyn eu hamser godro.
 - Problemau posibl wrth symud o odro ddwywaith i odro teirgwaith
 - Mae bron yn annatod y bydd yn arwain at leihad mewn cynhyrchiant, yn enwedig gyda buchod ffres
 - Cynyddu'r risg o fastitis mewn buchod cynhyrchiol iawn
 - Byddem yn cynghori y dylid ceisio cadw unrhyw addasiadau'n syml ac yn effeithiol. Bydd hyn yn gwella effeithlonrwydd a sicrhau bod cynhyrchiant yn parhau i fod mor llyfn â phosibl. Ni fyddem yn annog newid i drefniadau megis godro teirgwaith bob yn ail ddiwrnod a dwywaith ar y dyddiau eraill. Byddai hynny'n debygol o greu dryswch ac arwain at gamgymeriadau a phroblemau
- Newidiadau i amseroedd godro - wedi'i achosi gan staff gydag ymrwymtiadau eraill e.e. problemau gofal plant ayb.
 - Ni ddylai newid amseroedd godro fod yn broblem. Symudwch i fwllch o 12 awr os yn bosibl, os bydd hynny'n helpu gyda sicrhau staff digonol.
 - Ceisiwch osgoi bylchau o fwy na 14 awr rhwng bob sesiwn odro.



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

Bwydo:

Buches Odro:

- Mae newid arferion porthi dyddiol yn opsiwn, ond y bwriad gyda hynny fyddai er mwyn arbed cymysgu, ac felly arbed amser yn yr arferion dyddiol yn y pen draw. Os nad yw hyn yn digwydd, nid oes llawer o ddiben symud i fwydo unwaith y dydd.
- Ffordd arall er mwyn ceisio lleihau cymysgeddau/amser yw bwydo un diet yn hytrach na dau i wahanol grwpiau o wartheg godro. Gallai hyn fod yn briodol yn eich sefyllfa chi.
- Siaradwch gyda'ch ymgynghorydd/maethegydd i weld a yw hyn yn bosibl ar gyfer eich buches, ynghyd ag agweddau ymarferol ynglŷn â sut i gyflawni hyn heb effeithio'n sylweddol ar iechyd y fowch.
- Dylid gwthio'r bwyd i fyny'n rheolaidd i sicrhau mynediad digonol i'r bwyd.
- Problemau posibl yn gysylltiedig gyda'r uchod
 - o Cynhesu'r dogn yn y cafn

Nid yw tymheredd yr amgylchedd ar hyn o bryd yn peri pryder, ond wrth i'r amser fynd yn ei flaen, gallai achosi problem.

Ceir opsiynau ar gyfer cadwolion y gellir eu hychwanegu at y porthiant sy'n cynhesu. Os mae hyn yn broblem i chi, siaradwch gyda'ch ymgynghorydd yn uniongyrchol.

Gwartheg sych/stoc ifanc:

- Gellir bwydo gwartheg sych unwaith y dydd neu bob yn ail ddiwrnod.
- Gellir bwydo stoc ifanc ar ddietydd yn seiliedig ar borthiant unwaith y dydd neu bob yn ail ddiwrnod.
- Bydd yr un materion yn ymwneud â chynhesu'n berthnasol, felly gofynnwch am gyngor ynglŷn â defnyddio cadwolion.
- Mae angen sicrhau bod digon o fwyd ar gael ar gyfer y ddau ddiwrnod. Mae'n hanfodol bod gwartheg sych yn cael mynediad er mwyn bwyta.
- Dylid gwthio'r bwyd i fyny'n rheolaidd er mwyn sicrhau mynediad digonol at y bwyd.
- Ffordd dda o arbed amser yw bwydo gwartheg sych a stoc ifanc am yn ail bob dydd.

Paratowyd gan Kite Consulting



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813